



Gweithlu chwarae-gyfeillgar i Gymru

Cynllun datblygu gweithlu Chwarae Cymru 2020

Cynnwys

1. Cefndir	3
Datblygu'r cynllun hwn	3
Cynllun gweithredu a chylch bywyd <i>Gweithlu chwarae-gyfeillgar i Gymru</i>	3
Effaith Covid-19 ar ddatblygu'r gweithlu	4
2. Diffiniadau	5
Gweithlu gwaith chwarae	5
Gweithlu chwarae	5
Datblygiad Proffesiynol Parhaus	6
3. Y gweithlu gwaith chwarae	7
Darpariaeth gwaith chwarae at ddibenion cofrestru	7
Darpariaeth heb ei gofrestru	7
Mathau o leoliadau gwaith chwarae	7
3.1 Heriau i fynd i'r afael â hwy ar gyfer y gweithlu gwaith chwarae	8
Rolau gwaith chwarae	8
Cynlluniau chwarae dros y gwyliau	8
Ariannu ar gyfer cymwysterau	9
Newidiadau i gymwysterau yn y DU	9
Pryderon am ansawdd	10
Datblygiadau cymwysterau gwaith chwarae yng Nghymru	11
Sicrhau Ansawdd Gwaith Chwarae	11
3.2 Blaenoriaethau ar gyfer y gweithlu gwaith chwarae	12
Blaenoriaethau strategol	12
Blaenoriaethau gweithrediadol	13
4. Y gweithlu chwarae	14
4.1 Heriau i fynd i'r afael â hwy ar gyfer y gweithlu chwarae	15
Ariannu ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus	15
Blaenoriaethau cystadleuol	15
Cwtogiad ym maint y gweithlu cyffredinol	15
4.2. Blaenoriaethau ar gyfer y gweithlu chwarae	16
Blaenoriaethau strategol	16
Blaenoriaethau gweithrediadol	16
5. Rhoi'r cynllun datblygu gweithlu ar waith	17
Atodiad 1	17
Llyfryddiaeth	17

1. Cefndir

Mae Chwarae Cymru wedi datblygu'r cynllun datblygu gweithlu hwn er mwyn ymateb i ystod eang o flaenoriaethau ar gyfer y gweithluoedd chwarae a gwaith chwarae. Mae Cyfarwyddyd Statudol Llywodraeth Cymru ar asesu a sicrhau cyfleoedd chwarae digonol, *Cymru – Gwlad lle mae cyfle i chwarae* yn cydnabod o dan Fater G: Sicrhau a Datblygu'r Gweithlu Chwarae, bwysigrwydd gweithlu sydd â'r sgiliau priodol ar gyfer y rheini sy'n gweithio wyneb-yn-wyneb â phlant a'r rheini y mae eu gwaith yn effeithio ar ble bynnag y gallai plant chwarae.

Datblygu'r cynllun hwn

Mae'r blaenoriaethau a geir yn y cynllun datblygu gweithlu hwn wedi eu pennu trwy ymgynghori â'r sector ac mewn ymateb i flaenoriaethau a ddynodwyd trwy:

- Adolygiad Chwarae Cymru o'r 22 Aseiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2019
- Rhwydwaith Chwarae Strategol Cymru
- Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae i Gymru (PETC Cymru)
- Trafodaethau unigol gyda rhanddeiliaid (Atodiad 1)

- Play Sufficiency Network
- Adolygiad Cymwysterau Cymru yn 2016 o Gymwysterau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant a Gwaith Chwarae yng Nghymru.

Yn ogystal, mae Chwarae Cymru wedi gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i amlygu blaenoriaethau ar gyfer y gweithlu ar draws meysydd polisi gan gynnwys wrth weithredu ei gynllun 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae.

Cynllun gweithredu a chylch bywyd Gweithlu chwarae-gyfeillgar i Gymru

Nid oes dyddiad terfyn ar gyfer y cynllun hwn, ond caiff ei adolygu'n flynyddol fel rhan o'r cynllun gweithredu blynyddol. Adolygwyd yr ail fersiwn hwn i adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol o Adolygiad o Aseidiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2019.

Bydd Chwarae Cymru'n datblygu cynllun gweithredu blynyddol yn seiliedig ar y meysydd blaenoriaeth a geir yn y cynllun hwn.



Effaith Covid-19 ar ddatblygu'r gweithlu

Mae'r pandemig coronafeirws, a gychwynnodd ddechrau 2020, wedi cael effaith sylweddol ar drosglwyddiad hyfforddiant, cymwysterau a chyfleoedd datblygiad proffesiynol. Tra bo'r blaenoriaethau yn y cynllun hwn yn eang i fynd i'r afael gydag anghenion y gweithlu chwarae a gwaith chwarae, ceir rhywfaint o themâu cyffredinol sydd angen eu hystyried ochr-yn-ochr â'r cynllun hwn wrth inni gynllunio ymlaen at fywyd ar ôl y pandemig:

- Mae'r sector wedi ymgyfarwyddo bellach gyda chael mynediad i hyfforddiant, ac yn enwedig cyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP), o hirbell gan fod hyfforddiant wyneb-yn-wyneb, mewn nifer o achosion, wedi dod i ben.
- Mae angen ail-ffocysu ar gyfleoedd DPP a hyfforddiant i'r dyfodol yn dilyn Covid-19. Dylai cynllunio ymlaen ar gyfer datblygu'r gweithlu roi ystyriaeth gynyddol i gyfleoedd ar gyfer dysgu cyfunol – gan gyfuno dulliau ystafell ddosbarth ac ar-lein.
- Wrth i sefydliadau, gweithwyr proffesiynol a lleoliadau ail-ffocysu eu gwaith, efallai y bydd diffyg capasiti i bobl fynychu hyfforddiant a DPP.
- Mae cyfleoedd eiriolaeth a rhwydweithio gyda'r gweithlu chwarae ehangach wedi newid wrth i'r cyfleoedd ar gyfer cyfarfodydd anffurfiol a digwydd taro ar draws bobl leihau.
- Mae Chwarae Cymru'n dal o'r farn nad yw cwrs ar-lein cyflawn yn addas ar gyfer trosglwyddo cymwysterau ac y dylid gwneud pob ymdrech i ddod a grwpiau o ddysgwyr ynghyd i rannu arfer a dysgu oddi wrth ei gilydd. Gallai arddull dysgu

cyfunol gynnwys amser yn yr ystafell ddosbarth, tiwtorialau rhithiol neu waith grŵp bychan, arsylwi ymarfer a dulliau asesu amrywiol yn cynnwys asesiadau ar-lein.

- Er gwaetha'r symud tuag at fwy o drosglwyddo ac asesu ar-lein, bydd dal yn well gan rai dysgwyr ddysgu wyneb-yn-wyneb a chwblhau asesiadau copi caled. Mae angen ystyried sicrhau bod dysgu ac asesu'n hygyrch i bawb.
- Efallai y bydd y modd y caiff gwasanaethau eu trosglwyddo i blant wrth inni fynd ymlaen yn golygu bod rhaid i'r sector ddatblygu sgiliau newydd neu fireinio agweddau penodol o'u trosglwyddiad yn dilyn Covid-19. Dylai hyfforddiant a datblygiad proffesiynol fod yn hyblyg i gwmpasu sgiliau newydd sydd eu hangen er mwyn helpu i reoli'r feirws mewn cyd-destun esblygiadol.
- Gyda'r ffocws ar gyfyngu lledaeniad Covid-19, mae'n bwysig hefyd sicrhau nad yw deilliannau dysgu hyfforddiant chwarae a gwaith chwarae'n cael eu peryglu.
- Mae'n bosibl y bydd y cyd-destun rheoleiddiol ar gyfer gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru'n newid. Bydd angen i hyfforddiant a chymwysterau newid i adlewyrchu hyn.
- Nid yw Llywodraeth Cymru, hyd yma, wedi gofyn am Adroddiadau Cynnydd Cynlluniau Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (2019-20) neu Gynlluniau Gweithredu 2020-21. Mae'n bosibl y bydd awdurdodau lleol, heb gynlluniau neu strategaethau chwarae a gwaith chwarae clir, yn ei chael hi'n anodd mynd i'r afael ag anghenion gweithlu.

2. Diffiniadau

Un o elfennau allweddol creu iaith gyffredin gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid strategol eraill, yw'r diffiniadau o'r gweithluoedd chwarae a gwaith chwarae fel y'i diffinnir yn nogfen Llywodraeth Cymru, *Cymru – Gwlad lle mae cyfle i chwarae*. Er mwyn bod yn gwbl eglur ynghylch y gweithluoedd yr ydym yn cyfeirio atynt yn y cynllun datblygu gweithlu hwn, bydd Chwarae Cymru'n defnyddio'r diffiniadau cytûn canlynol ac rydym yn annog pob rhanddeiliad i'w defnyddio hefyd.

Gweithlu gwaith chwarae

Mae gwaith chwarae'n broffesiwn hynod fedrus sy'n gwella a chyfoethogi chwarae plant. Mae'n digwydd ble fo oedolion yn cefnogi chwarae plant ond nid yw'n cael ei yrru gan ddeilliannau addysg neu ofal rhagnodedig. Gall hyn gynnwys y bobl hynny (er, nid dim ond y rheini) sy'n gweithio mewn darpariaeth gwaith chwarae mynediad agored, gofal plant neu ddarpariaeth ieuencid.

Gweithlu chwarae

Mae'n cynnwys unrhyw berson cyflogedig y mae eu rôl yn effeithio ar blant yn chwarae – y bobl hynny allai un ai hwyluso eu chwarae'n uniongyrchol, dylunio ar gyfer chwarae, neu'r rheini sydd â'r grym i ganiatáu i blant chwarae neu beidio. Mae hyn yn cynnwys y rheini sy'n gweithio mewn: llywodraeth leol a chenedlaethol, cynllunio gwlad a thref, priffyrdd, iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, datblygu cymunedol a gwaith ieuencid yn ogystal â'r rheini sydd wedi eu hethol i wasanaethu ar Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chynghorau tref a chymuned.

Mae anghenion y grwpiau hyn yn benodol wahanol:

Gweithlu gwaith chwarae

Trwy ddiffiniad, bydd y gweithlu gwaith chwarae'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant i gefnogi eu chwarae ac maent yn debyg o fod angen cymwysterau at ddibenion rheoleiddiol neu ddeddfwriaethol. Diffinnir y cymwysterau hyn yn nogfen SkillsActive – *Rhestr o gymwysterau gofynnol i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru*. Mae'r gweithlu gwaith chwarae hefyd angen cyfleoedd ar gyfer DPP all gynnwys mynychu gweithdai, cynadleddau a digwyddiadau, darllen papurau briffio, cymryd rhan mewn rhwydweithiau cymheiriaid yn ogystal â defnyddio cyfryngau digidol fel gwefannau, podlediadau a fideos.

Gweithlu chwarae

Mae'r gweithlu chwarae, ar y llaw arall, yn grŵp amrywiol iawn, nad oes angen i lawer ohonynt feddu ar gymwysterau chwarae i gyflawni eu rolau. Fodd bynnag, mae rhaid iddynt feddu ar wybodaeth o'r hyn yw chwarae, o'i bwysigrwydd allweddol i blant a chyd-ddealltwriaeth o sut y gall eu rôl effeithio ar y weledigaeth ar gyfer chwarae plant a fynegir yn nogfen *Cymru – Gwlad lle mae cyfle i chwarae*. Gallai hyn gynnwys mynychu gweithdai, cynadleddau a digwyddiadau, darllen papurau briffio, cyfranogi mewn rhwydweithiau cymheiriaid yn ogystal â defnyddio cyfryngau fel gwefannau, podlediadau, fideos a mynediad i DPP.

Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Mae Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) yn broses y bydd unigolion yn ei defnyddio i wella eu perfformiad gwaith trwy ymgymryd â dysg mewn ystod eang o weithgareddau sy'n cynnal, datblygu a chyfoethogi eu sgiliau a'u gwybodaeth.

Gellir cyflawni DPP mewn nifer o ffyrdd. Gall rhaglen gynnwys:

- Mynychu cyfarfodydd, seminarau a chynadleddau allweddol
- Cwblhau cyrsiau byrion neu gymwysterau mwy o faint
- Astudio a darllen preifat
- Arsylwi, mentora ac adrodd yn ôl ar arfer gweithio.

Mae rhaglenni DPP yn debyg o gynnwys gweithgareddau myfyrio – ble y bydd gweithwyr a rheolwyr yn meddwl am feysydd gwaith ble y gallai unigolyn wella neu ble y maent angen mwy o wybodaeth neu sgiliau. Mae DPP yn broses o gefnogi anghenion unigol a gwella arfer proffesiynol, gan annog unigolion i reoli eu dysg, twf a datblygiad personol.

Mae ffocws DPP ar y canlyniadau neu'r buddiannau y gall datblygiad proffesiynol eu cynnig. Efallai mai'r neges bwysicaf yw bod rhaglen ddysgu unigolyn yn bersonol iddyn nhw – nid fydd un rhaglen yn gweddu i bawb.



3. Y gweithlu gwaith chwarae

Mae gweithwyr chwarae'n gweithredu mewn amrywiaeth o wahanol leoliadau ac, o'r herwydd, mae anghenion y gweithlu o ran hyfforddiant, cymwysterau a DPP yr un mor amrywiol. Fel bydd yr adran hon yn dangos, mae gweithwyr chwarae angen meddu ar ystod o sgiliau sy'n ychwanegol i'w gallu i weithio'n uniongyrchol â phlant.

Darpariaeth gwaith chwarae at ddibenion cofrestru

Dylid cofrestru darpariaeth gwaith chwarae gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), sy'n diffinio darpariaeth gwaith chwarae fel a ganlyn:

'Diffinnir darpariaeth gwaith chwarae mynediad agored fel "darpariaeth ar gyfer plant hyd at 12 oed ble na chaiff symudiadau'r plant eu cyfyngu, ar wahân i pan eu bod yn ymwneud â materion diogelwch ac ni fyddant yn cael eu hatal rhag mynd a dod fel y mynnant.'

Safonau Gofynnol Cenedlaethol, Ebrill 2016

Mae gofal plant y tu allan i oriau ysgol yn cyfeirio at ofal plant y tu allan i ddiwrnod ysgol y plentyn. Tra gall gofal plant y tu allan i oriau ysgol gynnwys ystod o amcanion ar gyfer plant, yn cynnwys chwarae a ddewisir o wirfodd, ei ddiben pennaf yw darparu gofal ar gyfer plant yn absenoldeb eu rhieni. Mae'r cymwysterau sy'n ofynnol ar gyfer pobl sy'n gweithio gyda phlant mewn lleoliadau gofal plant y tu allan i oriau ysgol, yn gymhwyster gwaith chwarae o'r [Rhestr o gymwysterau gofynnol i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru](#).

Darpariaeth heb ei gofrestru

Os yw lleoliadau'n agored am lai na dwyawr y dydd neu am lai na phum diwrnod y flwyddyn nid oes gofyn, ar hyn o bryd, iddynt gael eu cofrestru gydag AGC. Am amrywiol resymau, mae cyfran sylweddol o ddarparwyr gwaith chwarae Mynediad Agored yn gweithredu darpariaeth anrheoledig. Ond byddai'r mathau hyn o leoliadau'n elwa hefyd o sicrhau bod eu staff yn gallu cael mynediad i hyfforddiant a chymwysterau i wella eu harfer a chefnogi DPP staff a gwirfoddolwyr.

Nid yw Chwarae Cymru am weld darpariaeth yn cael ei gwtogi i fod yn agored am lai na dwyawr os nad yw hyn er budd plant a chymunedau. Rydym wedi ymrwymo i ddynodi ffyrdd i fynd i'r afael â heriau sicrhau bod staff yn meddu ar y cymwysterau priodol er mwyn iddynt allu cael eu cofrestru.

Mathau o leoliadau gwaith chwarae

O fewn y mathau a amlinellir uchod, gall darpariaeth gwaith chwarae ddigwydd mewn ystod eang o leoliadau, yn cynnwys:

- Meysydd chwarae antur wedi eu staffio
- Clybiau y tu allan i oriau ysgol
- Prosiectau chwarae rhiniog y drws a chymdogaeth (fel strydoedd chwarae)
- Canolfannau Plant Integredig
- Ysgolion
- Gwaith chwarae peripatetig (fel bysus chwarae a gwasanaethau rhodwyr chwarae)
- Cynlluniau chwarae dros y gwyliau
- Canolfannau chwarae
- Ystafelloedd neu ardaloedd chwarae mewn ysbytai
- Carchardai.

3.1 Heriau i fynd i'r afael â hwy ar gyfer y gweithlu gwaith chwarae

Rolau gwaith chwarae

Mae rôl y gweithiwr chwarae'n hynod amrywiol ac mae'n golygu mwy na gweithio wyneb-yn-wyneb â phlant. Yn anffodus, nid yw pob hyfforddiant a chymhwyster gwaith chwarae'n adlewyrchu'r amrywiaeth yma mor effeithiol ac y byddem yn ei ddisgwyl. Mae angen i weithwyr chwarae allu cael mynediad i gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a DPP fydd yn eu galluogi i gynyddu sgiliau ym meysydd:

- **Gweithio gyda'r gymuned** – bydd gweithwyr chwarae'n mynd i'r afael â rhwystrau i chwarae yn y gymuned yn gyffredinol a bydd hyn yn golygu ymgysylltu â phawb sydd â diddordeb neu sy'n effeithio ar y mannau ble y bydd plant yn chwarae.
- **Gweithio gyda rhieni** – mewn rhai achosion bydd gweithwyr chwarae'n cefnogi'r teulu ehangach yn ogystal â'r plentyn os oes trafferthion eraill o fewn y teulu. Hefyd, ble fo plant angen cymorth ychwanegol er mwyn cael eu cynnwys mewn sesiynau chwarae (fel plant anabl), bydd angen gweithio gyda'r teulu i ateb anghenion y plentyn.
- **Gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill** – oherwydd yr ystod o faterion a phroblemau y daw gweithwyr chwarae ar eu traws, mae'n bosibl y bydd angen i weithwyr chwarae gydweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill, yn cynnwys: cymorth i deuluoedd, gwasanaethau gwybodaeth i deuluoedd, gweithwyr iechyd proffesiynol a gweithwyr cymdeithasol.
- **Gweithio gydag ysgolion** – mae nifer o weithwyr chwarae'n ymestyn eu gwaith chwarae trwy weithio mewn ysgolion i gefnogi amserau chwarae, hyfforddi staff a darparu adnoddau chwarae.
- **Casglu adnoddau** – bydd gweithwyr chwarae'n treulio amser yn ymweld â busnesau lleol a chreu perthnasau gyda'r

rhain er mwyn sicrhau cyflenwad da o rannau rhydd i'r plant chwarae â nhw.

- **Arfer myfyriol** – mae gwaith chwarae'n alwedigaeth sy'n dibynnu ar arfer myfyriol i wella ac addasu arfer ac fel math o DPP hefyd. Dylai gweithwyr chwarae dreulio peth o'u oriau gwaith yn cyflawni arfer myfyriol, unai'n unigol neu gyda gweddill y tîm.
- **Ysgrifennu ceisiadau am gyllid** – oherwydd diffyg ffynhonnell ariannu unigol ar gyfer gwaith chwarae, mae darpariaeth blwyddyn gron yn dueddol o dderbyn cyllid o nifer o wahanol gronfeydd ariannu llai o faint.
- **Monitro a gwerthuso** – bydd nifer o gyllidwyr yn galw hefyd am adroddiadau monitro a gwerthuso niferus a hynny, o leiaf, bob chwarter – mae'n bosibl y bydd staff sydd ddim yn rheolwyr yn helpu i gasglu tystiolaeth ar gyfer y rhain.
- **Mynychu hyfforddiant** – mae'r mwyafrif o weithwyr chwarae blwyddyn gron yn ymgymryd â rhyw fath o hyfforddiant DPP, ac fe ddylent.

Cynlluniau chwarae dros y gwyliau

O ganlyniad i gwtogi ariannu cyhoeddus trwy Gymru ar gyfer nifer o wasanaethau, yn cynnwys gwaith chwarae, bu symud tuag at ddarpariaeth sydd ond yn cael ei chynnig yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae'n bosibl y caiff ei reoli gan yr awdurdod lleol neu gan fudiadau gwirfoddol yn cynnwys cymdeithasau chwarae cymunedol, bychain. Mae anghenion y rhan hon o'r gweithlu'n amrywiol ac maent yn cynnwys yr heriau canlynol:

- **Anodd eu cyrraedd** – yn aml bydd staff cynlluniau chwarae dros y gwyliau'n astudio neu'n gweithio mewn gwahanol rolau i faes gwaith chwarae a ddim yn ystyried eu hunain fel gweithwyr chwarae. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd iddynt gwblhau cymwysterau mwy o faint.

- **Anodd mesur eu hanghenion** – oherwydd bod y gweithlu'n anodd i'w gyrraedd, mae'n golygu hefyd eu bod yn cael eu hepgor yn aml o arolygon sy'n casglu gwybodaeth am anghenion y gweithlu.
- **Materion capasiti** – mae cyfyngiadau ariannol ac amser yn golygu nad yw'n bosibl yn aml iawn i sicrhau bod gweithwyr chwarae'n cwblhau cymwysterau lefel diploma. Fel arfer, bydd cymhwyster gwaith chwarae diploma lefel 2 yn cymryd 12 mis i'w gwblhau, a lefel 3 yn cymryd hyd at 18 mis. Mae hyn yn anghymesur i staff allai, o bosibl, fod ond yn gweithio yn y rôl am bythefnos i chwe wythnos y flwyddyn.
- **Profiadol** – ble fo cynlluniau chwarae dros y gwyliau wedi eu cynnal yn yr un lleoliad am nifer o flynyddoedd, yn enwedig darpariaeth gymunedol, ceir lefel uchel o brofiad gwaith chwarae ond, am y rhesymau a nodwyd eisoes, yn aml iawn nid ydynt yn meddu ar gymwysterau gwaith chwarae neu'r lefel priodol o gymwysterau.
- **Cymwysedig mewn sectorau eraill** – oherwydd bod gwaith chwarae'n aml yn 'ychwanegiad' i astudiaethau neu waith arall, mae'n bosibl y bydd pobl sy'n gweithio mewn cynlluniau chwarae dros y gwyliau yn meddu ar amrywiaeth o gymwysterau perthynol ond nid rhai gwaith chwarae, o reidrwydd.

Ariannu ar gyfer cymwysterau

Mae mwyafswm sylweddol o'r ariannu posibl sydd ar gael i bobl ymgymryd â chymwysterau gwaith chwarae yng Nghymru, trwy brentisiaethau.

Yn anffodus, oherwydd natur dymhorol a rhan amser rolau'r rheini sy'n gweithio mewn gwaith chwarae, nid yw hwn yn llwybr effeithiol i ddysgwyr ei ddilyn ac nid yw'n addas at ddiben y sector gwaith chwarae. Mae angen i ariannu ar gyfer hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae alluogi dysgwyr i ddewis i ymgymryd â chymwysterau a hyfforddiant

priodol sy'n ateb eu hanghenion, ar amser ac mewn lle sy'n gyfleus i gymhlethdodau eu bywydau ble y gallant, yn aml iawn, fod yn jyglo tair swydd neu fwy.

Dylid cael cyfleoedd hefyd i weithwyr chwarae gynyddu eu sgiliau'n llorweddol – aros ar yr un lefel cymhwyster ond ennill sgiliau ychwanegol, yn ogystal ag yn fertigol – symud ymlaen o lefel 2 i lefel 3, ac yn y blaen.

Newidiadau i gymwysterau yn y DU

Mae dadreoleiddio gwaith chwarae yn Lloegr wedi cael effaith tymor hwy ar y dirwedd cymwysterau yng ngweddill y DU. Mae cyrff dyfarnu'n fusnesau ac mae rhaid iddynt ystyried ymarferoldeb masnachol eu cymwysterau i gyd.

Mae hon yn sefyllfa sy'n esblygu ac, hyd yma, mae cyrff dyfarnu wedi ymestyn eu cymwysterau gwaith chwarae. Fodd bynnag, er mwyn dal i gydweddu gyda datblygiadau yng Nghymru, bydd angen i'r cymwysterau hyn gael eu diweddarau er mwyn parhau i fod yn addas ar gyfer y gweithlu gwaith chwarae.





Pryderon am ansawdd

Mynegwyd amrywiaeth o bryderon gan gyflogwyr, yn ogystal â dysgwyr, ynghylch ansawdd trosglwyddiad cymwysterau gwaith chwarae. Tynnwyd sylw at y rhain yn yr Adolygiad Sector o Gymwysterau a'r System Gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys gofal plant a gwaith chwarae, Cymwysterau Cymru yn 2016:

- Pryder ynghylch cymhwysedd aseswyr a'u gwybodaeth benodol am y sector.
- Effaith profi sgiliau hanfodol ar ddysgwyr. Mae Chwarae Cymru'n pryderu'n benodol am effaith hyn ar ddysgwyr sydd heb lwyddo o fewn y system ysgol.
- Anaddasrwydd prentisiaethau fel llwybr cynnydd ar gyfer y bobl hynny sydd mewn rolau gwaith chwarae rhan amser a thymhorol.
- Dysgwyr ar brentisiaethau'n cwblhau eu cymwysterau wedi eu hynysu oddi wrth ddysgwyr eraill, yn aml iawn gyda'r unig gyswllt o ran y cymhwyster gyda'u hasesydd.
- Llwyth asesu trwm ar ddysgwyr gyda gorddibyniaeth ar ystod gyflawn y criteria asesu, yn hytrach nag ar asesu holistig.
- Ni fu gwaith chwarae, yn hanesyddol, yn rhan o gymwysterau gofal plant. Tra'i bod yn fwriad diwygio hyn gyda'r Cymhwyster Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant a Chwarae o fis Medi 2019, mae dal angen i'r rheini sy'n meddu eisoes ar gymwysterau gofal plant i ddeall sut i gefnogi chwarae plant a ddewisir o wirfodd.
- Cymwysterau sydd un ai'n defnyddio damcaniaethau a geirfa hen ffasiwn neu sydd wedi eu hysgrifennu i gyd-fynd â'r hen Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (a adolygwyd yn 2016).

Datblygiadau cymwysterau gwaith chwarae yng Nghymru

Er mwyn ateb anghenion chwarae pob plentyn yng Nghymru a phawb sy'n gweithio ble mae plant yn chwarae, mae Chwarae Cymru wedi datblygu cyfres o gymwysterau, sef [Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar Waith](#) neu P³.

Mae'r gyfres yn cynnwys cymwysterau Tystysgrif Lefel 2 a Diploma Lefel 3. Gellir trosglwyddo P³ yn Gymraeg neu Saesneg.

Mae ein cyfres newydd o gymwysterau gwaith chwarae'n ateb y gofynion cymwysterau ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae cofrestredig yng Nghymru. Mae'r cymwysterau wedi eu dylunio i ddarparu llwybr cynnydd cymesur, effeithiol a chydlynol ar gyfer gweithwyr chwarae.

1. Mae [Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae \(L2APP\)](#) Agored Cymru yn cynnig cyflwyniad cyffredinol i waith chwarae a hwn yw'r gofyniad mynediad ar gyfer symud ymlaen i'r cymwysterau eraill yn y gyfres.
2. Mae [Tystysgrif Lefel 2 mewn Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar Waith Agored Cymru](#) wedi ei ddylunio i ateb anghenion gweithwyr chwarae wyneb-yn-wyneb, yn seiliedig ar adborth oddi wrth y sector.
3. [Diploma Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar Waith Agored Cymru](#) yw'r cam ymlaen nesaf o'r Dystysgrif Lefel 2 ac mae wedi ei anelu at oruchwylwyr a rheolwyr gwaith chwarae. Mae'n cynnwys elfennau ar ddatblygu cymunedol, rheoli risg, deddfwriaethau a gweithio gyda theuluoedd.

Yn ogystal, mae Chwarae Cymru wedi datblygu [Gwobr Lefel 3 mewn Rheoli Cynlluniau Chwarae'n Ystod Gwyliau'r Ysgol \(MAHPS\)](#), gydag ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cymhwyster hwn yn gweithredu fel dyfarniad trosiannol ar gyfer pobl sy'n meddu ar gymwysterau lefel 3 perthynol i weithredu fel person cofrestredig neu berson cyfrifol am gynllun chwarae'n ystod gwyliau'r ysgol.

Sicrhau Ansawdd Gwaith Chwarae

Cyhoeddwyd *Yr Hawl Cyntaf ... fframwaith ar gyfer asesu ansawdd gwaith chwarae* yn 2001. Mae'r cyhoeddiad hwn yn gyflwyniad gwych i waith chwarae ac mae'n cynnwys fframwaith sylfaenol a chanolradd, y bwriadwyd iddynt gael eu defnyddio i hunanasesu ansawdd arfer gwaith chwarae. Yn 2002, cyhoeddodd Chwarae Cymru *Yr Hawl Cyntaf – Prosesau Dymunol*, sy'n cynnwys fframwaith uwch.

Gyda'r adolygiad cyfredol o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (NMS) ac Adolygiad y Gweinidog o Chwarae, mae sicrhau ansawdd yn cael ei drafod fwyfwy. At hynny, mae'r angen am fframwaith sicrhau ansawdd addas i'r diben ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae yng Nghymru wedi ei bwysleisio yn y tri adolygiad diwethaf o Aseidiadau Digonolrwydd Chwarae awdurdodau lleol a gynhaliwyd gan Chwarae Cymru. O'r herwydd, rydym yn credu ei bod hi'n amserol inni ddatblygu rhywbeth penodol ar gyfer y sector gwaith chwarae sy'n edrych y tu hwnt i arfer gwaith chwarae ac sydd hefyd yn cynnwys dangosyddion ansawdd sy'n benodol i reolwyr a lleoliadau.

Bwriedir i'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd Gwaith Chwarae arfaethedig gael ei ddefnyddio gan lleoliadau gwaith chwarae cofrestredig a heb eu cofrestru, a bod yn gymwys hefyd i'r rheini sy'n cyflawni gwaith chwarae mewn lleoliadau gwaith chwarae amhenodedig. Bydd yr Egwyddorion Gwaith Chwarae a hawliau plant wrth galon y Fframwaith Sicrhau Ansawdd Gwaith Chwarae.

At hynny, dylid bod cysylltiadau rhwng y Fframwaith Sicrhau Ansawdd Gwaith Chwarae a fframweithiau eraill sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd. Mae'n bosibl y bydd lleoliadau gwaith chwarae sy'n trosglwyddo cynnig ehangach ar gyfer plant a phobl ifanc hefyd yn cyflawni'r Fframwaith Ansawdd Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar (ECEC) neu'r Marc Ansawdd Gwaith Ieuencid.

3.2 Blaenoriaethau ar gyfer y gweithlu gwaith chwarae

Blaenoriaethau strategol

Bydd Chwarae Cymru'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid strategol eraill i geisio mynd i'r afael â'r blaenoriaethau canlynol:

PWS1	Ariannu ar gyfer cymwysterau gwaith chwarae sy'n lleihau'r baich ar ddysgwyr a chyflogwyr ac sy'n caniatáu ar gyfer croesawu ac achredu mwy o ddysgwyr gwaith chwarae.
PWS2	Dynodi ariannu ar gyfer cynaliadwyedd a datblygu cymwysterau gwaith chwarae o lefel 1 i 5 sy'n ateb anghenion y sector yn fwyaf effeithlon.
PWS3	Sicrhau bod effaith newidiadau i gymwysterau gwaith chwarae a yrrir gan ffactorau ar draws y DU yn cael eu hymgorffori mewn cynlluniau ar gyfer Cymru er mwyn gweithio tuag at lwybr cymwysterau cynaliadwy clir ar gyfer y rheini sy'n dymuno symud ymlaen yn y maes gwaith chwarae.
PWS4	Cynyddu'r seilwaith trosglwyddo ar gyfer cymwysterau gwaith chwarae yng Nghymru, yn enwedig o ran niferoedd a lefelau cymhwysedd tiwtoriaid ac aseswyr.
PWS5	Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol er mwyn sicrhau bod llwybrau cynnydd ar gyfer gwaith chwarae'n syml, yn gynaliadwy ac yn gyrraeddadwy o ran anghenion y gweithlu.
PWS6	Parhau i weithio gyda Chyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae i Gymru (PETC Cymru) i lywio cyfeiriad strategol ansawdd a statws cymwysterau gwaith chwarae yng Nghymru a'r DU.
PWS7	Gweithio gyda Cymwysterau Cymru a PETC Cymru ar sicrhau ansawdd a dynodiad cymwysterau gwaith chwarae sy'n gymwys i dderbyn ariannu cyhoeddus yng Nghymru.

Blaenoriaethau gweithrediadol

Bydd Chwarae Cymru'n gweithio gyda phartneriaid eraill i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau canlynol:

PWO1	Gweithio gydag Agored Cymru ac Addysg Oedolion Cymru Adult Learning Wales ar gynaliadwyedd trosglwyddo hyfforddiant o ansawdd ar gyfer gwaith chwarae, yn enwedig Gwaith Chwarae: Egwyddorion ar Waith (P³) , Dyfarniad Lefel 2 mewn Arfer Gwaith Chwarae (L2APP) , Dyfarniad Lefel 3 mewn Rheoli Cynlluniau Chwarae'n ystod Gwyliau'r Ysgol (MAHPS) a'r Dyfarniad Lefel 3 mewn Trosglwyddo Hyfforddiant Gwaith Chwarae Dynamig (ADDaPT) .
PWO2	Cefnogi datblygiad opsiynau DPP a chymwysterau sy'n caniatáu i weithwyr chwarae gynyddu eu sgiliau tra'n aros ar yr un lefel.
PWO3	Gweithio gyda chyflogwyr gwaith chwarae a gweithwyr chwarae i ddynodi cyfleoedd a mecanweithiau i hyrwyddo DPP.
PWO4	Gweithio gyda sefydliadau Addysg Uwch i wreiddio cymwysterau gwaith chwarae seiliedig ar gymhwysedd mewn cyrsiau gradd perthnasol.
PWO5	Archwilio opsiynau i gynyddu capasiti staffio o fewn Chwarae Cymru ar gyfer datblygu'r gweithlu.
PWO6	Gweithio gyda phartneriaid rhyngwladol yn Ewrop a gweddill y byd i rannu gwybodaeth, hyfforddiant a chymwysterau gwaith chwarae. Mae hyn yn cyfrannu at waith Chwarae Cymru fel canolfan ragoriaeth rhyngwladol.
PWO7	Gweithio gyda rhanddeiliaid yng Nghymru a gweddill y DU i adolygu Dyfarniad Lefel 3 mewn Pontio o'r Blynyddoedd Cynnar i Waith Chwarae ac archwilio ymarferoldeb cymhwyster pontio o waith chwarae i'r blynyddoedd cynnar.
PWO8	Datblygu fframwaith sicrhau ansawdd newydd ar gyfer y sector gwaith chwarae sy'n ateb anghenion lleoliadau gwaith chwarae cofrestredig a heb eu cofrestru. Gweithio gydag AGC a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y fframwaith arfaethedig yn cydymffurfio gyda disgwyliadau arolygwyr a gyda Fframwaith Ansawdd ECEC.

4. Y gweithlu chwarae

Mae natur y gweithlu chwarae'n hynod o amrywiol ac yn aml bydd anghenion hyfforddiant yn unigryw i'r sector, yn ogystal â'r rhanbarth o Gymru y mae'r unigolyn yn gweithio ynddo.

Mae'r ystod o randdeiliaid gaiff eu cynnwys o fewn y diffiniad 'gweithlu chwarae' (gweler adran 2), yn cynnwys y rheini y mae eu rolau'n effeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ar yr amrywiol Faterion a ddiffinnir yn *Cymru – Gwlad lle mae cyfle i chwarae*. Mae hyn yn cynnwys y rheini sy'n gweithio ym meysydd: cynllunio, addysg, blynyddoedd cynnar a gofal plant, iechyd, teithio, priffyrdd, datblygu cymunedol, gwasanaethau ieuencid, hamdden a chwaraeon ar draws gwasanaethau statudol ac ystod o fudiadau trydedd sector ond gallai hefyd gynnwys rhanddeiliaid eraill.

Ceir tystiolaeth gref o Aseidiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2013 a 2016, ble fo timau datblygu chwarae'n bodoli, boed fel rhan o'r awdurdod lleol neu trwy'r drydedd sector, bod anghenion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol y gweithlu chwarae'n cael eu dynodi a bod ymdrechion yn cael eu gwneud i ddarparu ar gyfer yr anghenion hyn.

Fodd bynnag, mae ariannu sydd ar gael ar gyfer cynyddu sgiliau'n dueddol o fod ar gyfer cymwysterau ffurfiol yn hytrach na hyfforddiant a DPP ac, o'r herwydd, mae angen bod yn greadigol er mwyn neilltuo adnoddau digonol ar gyfer cynyddu sgiliau'r gweithlu chwarae.

Mae ystod eang o ffyrdd y gellir cynyddu sgiliau'r gweithlu chwarae ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Cynadleddau a seminarau
- Gweithdai
- Hyfforddiant
- Papurau briffio
- Cyfarfodydd un-i-un
- Cyfryngau digidol (fel blogiau, fforymau, fideos, gwefannau a phodlediadau).

Tra bo cymwysterau sy'n canolbwyntio ar chwarae o fewn y sectorau amrywiol a amlinellir uchod yn uchelgeisiol, mae angen inni fod yn realistig. Efallai na fydd hwn yn llwybr priodol ar gyfer sectorau sydd â chymwysterau rhagnodedig a ble gallai cyllid fod hyd yn oed yn anos i'w sicrhau.



4.1 Heriau i fynd i'r afael â hwy ar gyfer y gweithlu chwarae

Ariannu ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Mae ariannu ar gyfer DPP yn dueddol o ddibynnu ar gyllidebau adrannol neu sefydliadol a gall fod yn heriol i sectorau eraill flaenoriaethu ariannu ar gyfer hyfforddiant chwarae pan fo angen DPP a hyfforddiant sector hefyd. Tra bo *Cymru – Gwlad lle mae cyfle i chwarae* yn cydnabod yr angen i gynyddu sgiliau'r gweithlu chwarae ehangach, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu mewn cynlluniau ar lefel polisi. Mae rhai awdurdodau lleol wedi defnyddio cyllid ad-hoc i alluogi staff i fynychu hyfforddiant, cynadleddau a digwyddiadau sydd wedi eu hanelu at y gweithlu chwarae, ond nid yw hyn yn gynaliadwy nac yn strategol.

Blaenoriaethau cystadleuol

Nid oes unrhyw ofyn statudol ar weithwyr proffesiynol i gwblhau hyfforddiant nac ennill cymwysterau chwarae ac efallai na fydd llawer o'r gweithlu chwarae'n deall yr effaith gaiff eu rôl ar chwarae plant. Ble fo hyfforddiant chwarae wedi ei gynnig, mae gwell ymwybyddiaeth ymysg y gweithlu chwarae ynghylch sut y mae eu rôl yn cysylltu â'r Aseidiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a chynllun gweithredu'r awdurdod lleol.

Dim llwybr cydnabyddedig, cymeradwy ar gyfer DPP neu gymwysterau sy'n berthnasol i'r gweithlu chwarae

Mae cymaint o waith da'n cael ei gyflawni gan awdurdodau lleol, mudiadau trydedd sector a Chwarae Cymru i ddatblygu ystod o opsiynau i gynyddu sgiliau'r gweithlu chwarae. Ond nid yw'r rhain wedi eu ffurfioli, felly nid oes llwybr safonol i'r gweithlu chwarae ei ddilyn. Gallai fframwaith sy'n dynodi'r mathau o opsiynau

sydd ar gael ar gyfer DPP, hyfforddiant a chymwysterau'n ôl trefn hierarchaeth helpu'r aelodau hynny o'r gweithlu chwarae sy'n dymuno cynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Cwtogiad ym maint y gweithlu cyffredinol

Mae cwtogiad mewn cyllid cyffredinol i awdurdodau lleol a mudiadau trydedd sector wedi arwain, mewn llawer o achosion, at lai o staff yn y gweithle a'r staff sydd ar ôl yn derbyn cyfrifoldebau a rolau ychwanegol. Gall hyn olygu bod 'chwarae' yn rhan o gylch gorchwyl llawer ehangach.

Ar ben hyn, mewn rhai awdurdodau lleol, mae Aseidiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn cael eu cwblhau gan bobl heb unrhyw brofiad o chwarae a gwaith chwarae. Byddai rhaglen o DPP sy'n cynnwys sgiliau a gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chwblhau aseidiadau o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae, ymgynghori â phlant a rhieni, ymchwilio a blaenoriaethu camau gweithredu, yn cefnogi'r rheini sydd â'r cyfrifoldeb hwn.



4.2. Blaenoriaethau ar gyfer y gweithlu chwarae

Blaenoriaethau strategol

Bydd Chwarae Cymru'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid strategol eraill er mwyn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau canlynol:

PS1	Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod hyfforddiant a DPP ar gyfer y gweithlu chwarae'n derbyn blaenoriaeth, ochr-yn-ochr â mentrau i gynyddu sgiliau a chymwysu'r gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a gwaith chwarae.
PS2	Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu gwell dealltwriaeth o anghenion y gweithlu chwarae, sut i asesu eu anghenion a ffyrdd ymarferol o gefnogi DPP a chynyddu sgiliau.
PS3	Cefnogi awdurdodau lleol a mudiadau chwarae trydedd sector i gynyddu sgiliau'r gweithlu chwarae.

Blaenoriaethau gweithrediadol

PO1	Cefnogi ymarferwyr yn y gweithlu chwarae ehangach i ddeall eu rôl o ran digonolrwydd chwarae trwy ddynodi a datblygu cymwysterau chwarae, hyfforddiant, seminarau, gweithdai, cynadleddau, papurau briffio a chyfryngau cymdeithasol digidol allai gynnwys fideos, blogiau, gwefannau, apiau ffôn a phodlediadau.
PO2	Archwilio llwybrau ariannu ac opsiynau trosglwyddo ar gyfer rhaglen DPP ar gyfer rhanddeiliaid ar ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae.
PO3	Datblygu rhaglen DPP ar gyfer swyddogion arweiniol Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.
PO4	Datblygu a throsglwyddo ystod o weithdai wedi eu hanelu at y gweithlu chwarae.
PO5	Ymgysylltu â sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch i sicrhau bod unrhyw gymwysterau a rhaglenni sydd wedi eu hanelu at y gweithlu chwarae'n cydblethu gyda ac yn ymateb i flaenoriaethau a geir yn y cynllun datblygu gweithlu hwn.

5. Rhoi'r cynllun datblygu gweithlu ar waith

Bydd Chwarae Cymru'n datblygu cynllun gweithredu blynyddol fydd yn cyfeirio at y blaenoriaethau a geir yn y cynllun datblygu gweithlu hwn. Rhennir gwaith ar flaenoriaethau strategol gyda Llywodraeth Cymru fel rhan o broses monitro'r cyllid a dderbyniwyd.

Adolygir blaenoriaethau'r cynllun datblygu gweithlu yn 2022 fel rhan o'r adolygiad o'r rownd nesaf o Asesiadau o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

Bydd Chwarae Cymru'n adrodd yn ôl i PETC Cymru ar gynnydd a wnaethpwyd yn erbyn y cynllun gweithredu blynyddol.

Atodiad 1

Rhanddeiliaid allweddol

Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae i Gymru (PETC Cymru)

Cymwysterau Cymru

Gofal Cymdeithasol Cymru

Llywodraeth Cymru

Partneriaeth CWLWM

Safonau Addysg Hyfforddiant (ETS Cymru)

Llyfryddiaeth

SkillsActive (2019) *Rhestr o gymwysterau gofynnol i weithio yn y Sector Gwaith Chwarae yng Nghymru*. Llundain: SkillsActive.

Cymwysterau Cymru (2016) *Adolygiad Sector o Gymwysterau a'r System Gymwysterau ym maes lechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys gofal plant a gwaith chwarae*. Casnewydd: Cymwysterau Cymru.

Llywodraeth Cymru (2014) *Cymru – Gwlad lle mae cyfle i chwarae*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.

Llywodraeth Cymru (2016) *Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron.



Tachwedd 2020

www.chwaraecymru.org.uk

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.